Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Olwen Minney
Y Gangen Dŵr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Dyddiad: 02 Gorffennaf 2013

Annwyl Olwen

**YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR REOLI PIBELLAU CYFLENWADAU DŴR PREIFAT YN Y DYFODOL**

Rydym yn croesawu'r cyfle i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar reoli pibellau cyflenwadau dŵr preifat yn y dyfodol.

*Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy yn awr ac yn y dyfodol.*

Mae ein hymateb yn ymwneud ag agweddau technegol ar yr ymgynghoriad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Asesiad Effaith. Rydym wedi darparu atebion i'r cwestiynau yn y ddogfen ymgynghori lle y credwn ein bod yn gallu darparu gwybodaeth.

**Cwestiwn 1 – A yw opsiwn 0 (Gwneud dim) yn opsiwn addas a chynaliadwy ar gyfer rheoli pibellau cyflenwadau dŵr yn y dyfodol?** Nid yw'r system gyfredol o fuddsoddiadau annigonol mewn pibellau cyflenwadau yn gynaliadwy yn y tymor hir. Gollyngiadau o bibellau cyflenwadau cwsmeriaid yw tua 25% o gyfanswm gollyngiadau Cymru ar hyn o bryd. Trwy beidio â mynd i'r afael â gollyngiadau o bibellau cyflenwadau, bydd yr elfen hon o ollyngiadau yn cynyddu. Mae rheoli gollyngiadau yn bwysig i helpu i fynd i'r afael â'r pwysau cynyddol ar adnoddau dŵr o ran cynnydd yn y boblogaeth a nifer aelwydydd, a newid yn yr hinsawdd. Os na chaiff pibellau eu cynnal a'u cadw'n ddigon da, gallai hyn waethygu'r perygl o fethu â chyrraedd y safonau ar gyfer dŵr yfed.

**Cwestiwn 2 – A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol/tystiolaeth ynglŷn ag Opsiwn 1 (Cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio)?** Byddai opsiwn un ar gyfer datblygu cod ymarfer

Saesneg
Correspondence welcomed in Welsh and English

gwirfoddol yn gam i'r cyfeiriad cywir ond ni fyddai'n wahanol iawn i'r hyn sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd. Hyd yn oed pe mabwysiedir y dull hwn, gallai'r anghysondeb yn y ffordd y caiff cwsmeriaid eu trin a'r dull o atgyweirio pibellau cyflenwadau barhau. Mae'r opsiwn hwn yn annhebygol o ddarparu cadernid hirdymor o ystyried na fyddai cyfrifoldeb o hyd ar gwmnïau cyflenwi dŵr, na rheolaeth dros y rhwydwaith cyfan o bibellau cyflenwadau dŵr. Ychydig o gymhelliant a fyddai i gwmnïau ddilyn cod ymarfer os yw'r cyllid ar gyfer gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio yn anghyson neu'n ansicr.

**Cwestiwn 3 – A oes gennych sylwadau cyffredinol/tystiolaeth ynglŷn ag Opsiwn 2 (creu pŵer i reoleiddio)?** Byddai'r opsiwn hwn yn golygu:

- Y byddai gan gwmnïau dŵr bŵer i ddod o hyd i nifer sylweddol o ollyngiadau a'u hatgyweirio, a lleihau cyfanswm y gollyngiadau.
- Gallai'r arbedion dŵr fod yn sylweddol. Gallai fod effaith fanteisiol ar y cydbwysedd cyflenwi-galw yn enwedig mewn parthau lle mae diffyg ac yn enwedig o gyfuno hyn â rhaglenni mesuryddion clyfar i ganfod gollyngiadau'n gyflym.
- Bydd lleihau gollyngiadau yn arwain at:
  - lai o dynnu dŵr a gwella cynaliadwyedd/diogelwch y cyflenwad;
  - llai o ddefnydd o ynni ac allyriadau carbon;
  - gwella cysylltiadau â chwsmeriaid;
  - cwsmeriaid yn fwy tebygol o wneud eu rhan i arbed dŵr.
- Mae'r adroddiad ar yr adolygiad o'r Lefel Ollyngiadau sy'n Economaidd Gynaliadwy (SELL) yn argymell y dylid cyfrifo SELL gollyngiadau pibellau cyflenwadau ar wahân. Byddai'r pŵer newydd hwn yn galluogi cwmnïau dŵr i gyfrifo SELL yn fwy trylwyr ar gyfer gollyngiadau pibellau cyflenwadau gan y byddai'r cwmnïau'n gallu rheoli'r gollyngiadau hyn mewn modd mwy cost-effeithiol gan y byddai ganddynt fwy o reolaeth ar sut i reoli gollyngiadau pibellau cyflenwadau. Mae hyn yn debygol o leihau'r gollyngiadau ymhellach.
- Byddai cwmnïau dŵr yn gallu rheoli eu mesuriadau perfformiad gollyngiadau yn well gan y byddent yn rheoli'r holl system ddosbarthu dŵr ac yn gyfrifol amdani.
- Byddai cwmnïau'n gallu ailosod pibellau cyflenwadau wrth ailosod pibellau'r prif gyflenwad. Byddai hyn yn cynyddu manteision y prosiectau hynny ac yn hwyluso dull o fynd ati fesul stryd a allai fod yn fwy cost-effeithiol.
- Byddai defnyddioldeb y rhwydwaith yn gwella;
- Gellid gwella ansawdd dŵr yfed gan y byddai hen bibellau'n cael eu hadnewyddu.
- Rhaid cael system gyllido addas ar waith i gefnogi'r cwmnïau dŵr a'r asedau ychwanegol y bydd ganddynt gyfrifoldeb drostynt o ganlyniad i'r pŵer newydd hwn.
- Byddai'r defnydd isel o fesuryddion mewn eiddo domestig yng Nghymru (~30%) ynghyd ag amledd isel darlleniadau mesuryddion bob blwyddyn yn golygu y byddai nodi gollyngiadau yn parhau'n anodd, hyd yn oed gyda'r pŵer newydd hwn.

**Cwestiwn 5 - Beth yw'r opsiwn a ffafrir gennych?** Byddem yn cefnogi Opsiwn 2, sef creu pŵer i reoleiddio, gan y byddai hynny'n galluogi cwmnïau i reoli eu


perfformiad gollyngiadau'n well ac yn lleihau gollyngiadau. Gweler yr ymateb i Gwestiwn 3.

**Cwestiwn 7 – A yw'r rhestr hon o grwpiau yn cynnwys pawb y gallai'r opsiynau effeithio arnynt yn eich barn chi?** Ydy.

**Cwestiwn 9 - A oes gennych unrhyw sylwadau/tystiolaeth, gyda/heb gynnwys gwerth ariannol, ar effaith bosibl yr opsiynau ar gwmnïau cyflenwi dŵr?** Mae hon yn ddyletswydd ychwanegol i gwmnïau dŵr. Nid oes gennym wybodaeth am gostau, ond byddem yn rhagweld y byddai angen adnoddau ychwanegol i'w galluogi i ysgwyddo'r cyfrifoldeb. Byddai angen rhoi ystyriaeth ofalus i effeithiau busnesau â rhwydweithiau cyflenwi hir ar eu heiddo eu hunain gan y gallai hyn olygu bod cwmnïau dŵr yn ysgwyddo cyfrifoldeb a risg ariannol am rwydwaith ychwanegol sylweddol o bibellau.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech ragor o wybodaeth am y pwyntiau a grybwyllir yn y nodyn hwn, cysylltwch â Victoria Ashton: Victoria.Ashton@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Yr eiddoch yn gywir



Joanne Sherwood
Pennaeth Cynllunio Adnoddau Naturiol

Ebost Joanne.Sherwood@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
Ffôn 029 2046 6574